"RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD"

YR YMOFYNNYDD

Cylchgrawn Misol Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

GOLYGYDD—
Y Parch. D. JACOB DAVIES, B.A., Aberdar

"PROFWCH BOB PETH, DELIWCH YR HYN SYDD DDA"

CYFROL LII
1952

Llandysul :
ARGRAFFWYD GAN J. D. LEWIS A'I FEIBION CYF., GWASG GOMER

CYNNWYS

Achosion y Dirywiad Crefyddol, 1, 24.
Aderyn Bach, Yr, 52.
Arholiad yr Ysgol Sul, 76.

Barddoniaeth, 23, 78, 99, 152, 161, 167, 212, 214, 220.

Caban F'ewythr Twm, 122.
Coed, Ysglod a Blawd Llif, 66, 90.
Crefydd yr Iesu, 201.
Cristnogaeth a Gwareiddiad, 65.
Cwpwrth Llyfrau, Y, 99, 210.
Cyrddau Chwarter, Y, 64, 132, 149, 168.

Dau Weinidog, 189.
Dewi Emrys, 153, 199.

Eilir, 41.
Esgyrn Sychion, 79.
Evans, Caradoc, 204.
Evans, R. M., 28.

Ffordd y Pererinion, 184.
Ffwndamentaliaeth, 119, 139.

Genhinen a'r ysgallen, Y, 102.
Gohebiaethau, 94, 111, 166, 219.
Gwybod ei Feibl, 105.
Gŵyl Lladd Mochyn, 50.

Jones, Jenkin Lloyd, 169.

Lluniau, 33, 103, 104, 131, 138.
Lleygwyr Diwylliedig, 190.

Marwgofion, 14, 31, 44, 61, 81, 95, 112, 128, 147, 162, 213.
Morgan, M. R., 104.
Mynwent Pantydefaid, 208.

Neges y Llywydd, 11.
Newyddion yr Enwad, 15, 32, 46, 62, 83, 96, 115, 149, 163, 199, 215.
Nodiadau'r Golygydd, 17, 37, 50, 85, 101, 117, 134, 153.

Pantydefaid, Rhifyn Dathlu, 169—198, 208, 217.
Plant Anian, 18.
Pobol Od, 56.
Price, W. W., 130.
Priodasau, 14, 44, 61, 81, 128, 146, 162, 199, 212.
Profiad o fod yn golledig, 137.

Rowlands, J. L., 103.

Safle yng Nghymru, Y, 159, 219.
Salmau'r Mynydd, 6, 19, 39, 53, 70, 87, 106, 124, 141.

Undeb y Gwragedd, 211.

Williams, Evan James, 156.
Wright, F. Ll., 169.

AWDURON :

Davies, Ceri, 50, 79.
Evans, Tom, 66, 90.
Hesgin, 1, 24, 105.
Hopkin, Basil, 159.
James, Y Parch. Noel, 65.
Jones, Y Parch. Iorwerth, 119, 139.
Jones, K. V., 122.
Jones, Y Parch. S. B., 23.
Jones, Y Parch. Simon, 190.
Jones, Y Dr. R. O., 219.
Morgan, Haydn, 6, 19, 39, 53, 70, 87, 106, 124, 141.
N. a N., 28.
Nance, 102.
Owen, Yr Athro M. B., 137.
Peate, Y Dr. I. C., 201.
Rees, A. J., 18, 52.
Rees, Llewelyn, 56.
Rees, Y Parch. Seymour, 156, 204.
Thomas, Y Parch. J. Marles, 194.
Williams, Y Parch. Rhydwen, 167.
Williams, Y Parch. T. O., 176.

YR YMOFYNNYDD

. . Cylchgrawn Misol . .

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd—Y Parch. D. JACOB DAVIES, B.A.

CYFROL LII. IONAWR, 1952 RHIF 1.

Traethawd : "Yr achosion am y dirywiad Crefyddol yn ein gwlad."

Gan HESGIN.

(*Parhad*).

VI.—Y SINEMAU.

GAN imi grybwyll y sinemâu, efallai y byddai cystal imi, yn y fan hon, ddweud gair ynghylch eu dylanwad honedig hwythau ar ddirywiad crefydd yng Nghymru. Clywir yn bur fynych fod dylanwad y sinema wedi amharu'r bywyd crefyddol yn y trefi. Nid oes dim dwywaith nad ydyw'r sinemâu wedi bod yn foddion i newid *arferion* crefyddol y bobl. Yn ei ysgrif yn *Y Goleuad* am Ionawr 21, 1948, rhydd "Sylwedydd" enghraifft o'r hyn a ddigwyddodd. Dyma ychydig frawddegau o'r ysgrif: "Gwelodd [y gweinidog] fod un-ar-ddeg o blant yr eglwys mewn oedran i'w derbyn yn gyflawn aelodau, a threfnodd yr hyn a elwir yn ddosbarth derbyn. Daeth naw i'r dosbarth cyntaf. Dau fu'n gyson ym mhob cyfarfod. Caed pob esgusodion gan y lleill, y ' pictures ' gan amlaf. Bu'r gweinidog yn siarad â rhieni rhai ohonynt, pobl *modern* eu syniadau nad oeddynt yn credu mewn gorfodi plant. Daeth chwech i'r seiad i'w derbyn, a gwyddai'r gweinidog mor amherffaith oedd y paratoad." Dim ond ychydig tros hanner "had yr eglwys" yn cael ei gynhaeafu !

Gellid, mae'n ddiamau, ddweud yr un peth am gyfarfodydd eraill; yn enwedig am "gyfarfodydd canol yr wythnos," fel y'i gelwir.

Ond nid ydwyf yn credu ddarfod i'r "pictiwrs" newid fawr ddim ar *syniadau* crefyddol y bobl. Y mae'r "pictiwrs"—yn enwedig y

rhai Americanaidd—yn rhai hollol uniongred : gofalodd Pabyddion yr Unol Daleithiau am hynny. "Ond," medd rhywun, "beth am y *gangster films* ?" Wel, beth amdanynt ? Onid oes hanes am bethau cyn waethed â'r *gangster films* i'w cael yn y Beibl : yn enwedig yn hanes y rhyfeloedd a'r ymrysonfeydd yn yr Hen Destmaent ? Nid oes dim mor ddieflig yn y *gangster films* â'r stori am feibion Jacob yn "lladd pob gwryw" o'r Sichemiaid, yn ysbeilio eu dinas ac yn caethgludo eu "rhai bychain a'u gwragedd". Nid oes ynddynt, chwaith, ddim mor greulon â'r stori am Jephthah yn llosgi ei ferch i farwolaeth yn unig am iddi ddigwydd bod y gyntaf un i'w groesawu adref o'r rhyfel. Ond, efallai y dylem roi rhyw gymaint o gredyd i Jephthah, er mor ddwl ac ofergoelus ydoedd : gohiriwyd ei dienyddiad am ddeufis er mwyn iddi gael cyfle i fynd "i fyny ac i waered ar y mynyddoedd" i wylo "oherwydd ei morwyndod", ac i edrych yn hiraethus ar y golygfeydd a welsai ac a hoffai er pan ydoedd yn blentyn—druan ohoni ! Peth arall : onid y *troseddwr* a gosbir—yn ddieithriad, hyd y sylwais i—yn y *films* ?

VII.—Anghrediniaeth.

"Anghrediniaeth !" medd rhywun ; "onid difaterwch ydych chwi yn ei olygu ?" Nage, anghrediniaeth ; oblegid beth ydyw difaterwch ond ffurf neu agwedd ar anghrediniaeth. Pan edy dyn fudiad cymdeithasol neu blaid wleidyddol, dywedir—yn hollol gywir—nad ydyw yn credu yn y mudiad hwnnw, neu'r blaid honno, mwyach. Ond pan edy dyn gapel neu eglwys, dywedir mai "wedi mynd yn ddifater y mae o." Y mae hi mor anodd cael gan weinidogion ac aelodau eglwysig gyfaddef bod rhywun wedi gadael crefydd am nad ydyw, mwyach, yn credu ynddi, ag ydyw "cael 'menyn o gorn gwddw' ci," chwedl yr hen bobl. Gwn yn burion fod Mary Lewis yn sôn am rywun a oedd wedi "gadael crefydd a mynd i'r eglwys" ; ond hen wraig blaen, onest, a di-dderbynwyneb oedd Mary Lewis.

Soniais yn barod am ddylanwad llyfrau'r *R.P.A.*, ac fel y bu iddynt ansefydlogi meddyliau llaweroedd ynghylch amryw o athrawiaethau crefydd. Ond yr oedd anesmwythder yn y cyfeiriad hwnnw ymhlith crefyddwyr wedi dechrau ymhell cyn y cychwynwyd cyhoeddi'r llyfrau hynny. Mae'n debyg mai'r gred mewn uffern o dân a brwmstan oedd yr athrawiaeth gyntaf y dechreuwyd ei hamau. Wedi cyfeirio at ddaliadau'r gwahanol eglwysi ac enwadau, cwyd Robert Davies, Nantglyn, ei ddwylo mewn penbleth, a dywaid :

> "Wel, bellach o'r werin, pa ddewin all wirio,
> Pwy sydd ar gelwydd, a phwy ellir goelio !
> Mae'n ddigon er amau, dan y rhod,
> Oes uffern yn bod neu beidio."

Erbyn oes Daniel Owen yr oedd y pregethwyr wedi mynd yn bur swil ynghylch uffern. Ebr Daniel, yn y bennod gyntaf o *Enoc Huws* (a gyhoeddwyd yn Hydref, 1891). "A oes y fath le ag uffern yn y dyddiau hyn ? Arferid sôn am le felly ers talwm, ond anfynych y clywir crybwylliad am y fath le yrwan, oddigerth gan ambell un go hen ffasiwn." Mae'n anodd gwybod sut yr ymledodd yr amheuaeth ynghylch uffern ymhlith y cyhoedd. Ond ymledu a wnaeth, a delid ar draws y peth mewn rhai y gellid meddwl eu bod yn hollol uniongred. Cefais i brofiad o hyn. Pan oeddwn yn y Gwasanaeth Sufyl bu gennyf ferch ifanc, tuag 20 oed yn *shorthand-typist* am dymor. Ni byddwn i byth yn trafod pynciau crefyddol na materion gwleidyddol gydag aelodau fy *staff*, Gwyddwn, er hynny, fod Peggy yn Dori rhonc ac yn Eglwyswraig ffyddlon. Ond ni chlywswn hi erioed yn sôn am grefydd : ei diddordeb pennaf oedd prisiau *stocks and shares*—yr oedd ei darpar ŵr yn *stockbroker*. Un bore, pan oedd Peggy yn fy helpu i agor y llythyrau, safodd yn sydyn, edrychodd ym myw fy llygaid, ac ebr hi : "*You don't believe in hell, do you* ?" "*No, I don't*," oedd fy ateb. "*Neither do I*," meddai hithau. Ebe fi wrthi, "*You believe in heaven, I suppose.*" "*Yes*," oedd ei hateb. "*Well*," ebe fi, "*have you ever thought that there is just as much evidence for the existence of heaven as there is for the existence of hell, namely—nil* !" "*Good God* !" meddai Peggy.

Erbyn hyn y mae'r syniad o uffern (ac o gosbedigaeth dragwyddol o unrhyw fath) wedi mynd yn angof, a'r gair wedi mynd ar goll o eirfa crefyddwyr.

Yn nechrau'r ganrif hon yr oedd mudiad ar droed yn Lloegr y bu cryn sôn a siarad yn ei gylch—mudiad "Y Ddiwinyddiaeth Newydd", fel y'i gelwid. Prif hyrwyddwr y mudiad oedd y Parch. R. J. Campbell, a oedd y pryd hwnnw yn weinidog y City Temple, yn Llundain. Yr oedd Campbell wedi llyncu y rhan fwyaf o gasgliadau yr Uwchfeirniaid Beiblaidd, ac wedi ychwanegu at hynny yr hyn a alwai ef yn "Efengyl Gymdeithasol". Cafodd syniadau Campbell beth dylanwad ar grefyddwyr yng Nghymru. Ond bu cyfnewidiad yn safbwynt Campbell ; ymddiswyddodd o weinidogaeth y City Temple ; derbyniwyd ef i Eglwys Loegr, a bu farw yn Ganon yn yr Eglwys honno.

Y tebycaf i Campbell yng Nghymru oedd y Parch. T. Nefyn Williams. Yr oedd ef, yn y 1920au, yn weinidog yn y Tumble, ger Llanelli. Mae'n amlwg ei fod ef, y pryd hwnnw, yn coleddu syniadau tebyg i'r rhai y buasai Campbell yn eu pregethu, a'i fod yn credu y dylid gadael i'r bobl gyffredin wybod yr hyn a ddysgid gan y dysgodron am y Beibl a'i gynnwys. Cododd stŵr trwy'r Cyfundeb Methodistaidd, a bu raid i'r Parch. T. Nefyn Williams gymryd sylw o'r mwstwr. Cyhoeddodd lyfryn o'r enw *Y Ffordd yr Edrychaf ar Bethau*, fel math o *apologia*.

Dyma rai o'r pethau na chredai Tom Nefyn ynddynt—y pryd hwnnw :

1. *Rhai o'r gwyrthiau.*—Ebr ef : "Ond er i mi gredu mewn llawer iawn o weithredoedd nerthol Crist, y mae sôn am wyrthiau yn yr efengylau na chredaf ynddynt. A'r math ar bethau yr anghredaf ynddynt yw y rhai hyn—Porthi'r pum mil ; atgyfodi mab y wraig weddw o Nain ; melltithio'r ffigysbren ; troi'r dŵr yn win ; atgyfodi Lasarus ; cerdded ar y môr ; tawelu'r ystorm, a rhuthr y moch i'r môr. Teimlaf fod ffansi a ffeithiau wedi eu cymysgu ar dudalennau y Testament Newydd ambell dro." (Tud. 21).

2. *Anfawoldeb.*—"Credaf nad oes neb yn anfarwol wrth natur. Nid peth a anedlir i fywyd dyn pan fo'n blentyn ydyw y bywyd tragwyddol." (Tud. 26).

3. *Y Beibl.*—"At ddylanwad y pethau a geir yn y Beibl ar fy mywyd yr apeliaf, ac nid at ddogma haearnaidd. Yn y mater hwn fy nghydwybod a'm meddwl yw'r awdurdod yr apeliaf ato, ac nid erthygl mewn Cyffes Ffydd. Ac af i'r Beibl am neges foesol, ac nid am wybodaeth wyddonol. Af iddo am weledigaeth gynhyddol o Dduw ym meddwl y byd, ac nid am gywirdeb hanesyddol. . . . Ond er pob ymgais i warchod purdeb y meddwl ifanc rhag gwenwyn nofelau iselwael ; er pob ymdrech i sicrhau dramodau a wnant chwarae teg â'r pethau gorau mewn bywyd ; er pob gwrthryfel yn erbyn darluniau amheus eu moes a'u dylanwad yn y Cinema, gadewir i'r ' gelyn ddyfod i mewn fel afon ' o gyfeiriad arall. Caiff hanesion pwdr eu moes a'u dylanwad lonydd yn y Beibl. Rhoddir yn nwylo'r ifanc benodau a wnant i gyfathrach mab a merch edrych y peth mwyaf atgas a ddidduw. Gadewir yng nghyrraedd yr ifanc bethau a ogleisiant chwilfrydedd afiach, ac a greant syniad anghywir am berthynas y rhywiau â'i gilydd. Ac er ein bod yn ymdrechu i greu cydwybod yn erbyn rhyfeloedd a gormes, ac yn gwario arian ac amser i achub bywyd o'i ofn, gadawn yn y Beibl syniadau am Dduw sydd yn baganaidd i'r eithaf. (Tud. 47, 48, 49).

Gellid dyfynnu rhagor i ddangos ei anuniongrededd ynglŷn â'r athrawiaethau.

Yr oedd ef hefyd yn feirniad llym ar agwedd yr eglwysi tuag at gymdeithas. Ebr ef : "Yn yr addoldai clywant fegera oesol am arian ; yn yr uchel-lysoedd eglwysig gwelant yr arweinwyr yn ofni ddweud gair o blaid cyflog uwch a chwarae teg i'r gweithiwr" (Tud. 56). Y mae ganddo bethau pur chwyldroadol i'w dweud am y modd y dylid dwyn ymlaen yr Ysgol Sul, ac am ddisgyblaeth eglwysig, etc.

Galwyd ef i gyfrif gan yr "awdurdodau goruchel". Ac y mae'r Parch. T. Nefyn Williams wedi "dwad at ei goed" ers blynyddoedd bellach. Mae'n wir nad ydyw, hyd heddiw, mor hawdd ei drin â rhai, ond nid ydyw yn "cicio dros dresi'r athrawiaethau", mwyach.

Ond y mae lle cryf i gredu mai nid Tom Nefyn yn unig a goleddai syniadau anuniongred am y Beibl a'r Cyffes Ffydd. Mae'n lled debyg fod y mwyafrif o weinidogion yr "Hen Gorff", a gweinidogion yr enwadau eraill hefyd, o ran hynny, yn dal syniadau pur debyg, ond eu bod yn fwy gochelgar—ac yn ymatal rhag eu cyhoeddi ar goedd gwlad. "A ydych chwi yn awgrymu," ebr rhywun, "fod pregethwyr yn pregethu'r hyn sy'n groes i'w hargyhoeddiadau?" Wel, beth a ddywedwch chwi yn wyneb y paragraff canlynol a ymddangosodd yng ngholofnau golygyddol *Seren Cymru*, Hydref 30, 1936. (Y diweddar Barch. R. S. Rogers, Abertawe oedd y golygydd y pryd hwnnw) :—

> "Dwg y Parch. Joseph Jones, Amlwch, gyhuddiad pur bwysig yn erbyn y pulpud pan ddywed yn *Yr Efengylydd* 'ein bod lawer ohonom, yn pregethu ac yn dysgu pethau nad ydym yn eu credu ein hunain.' Ni wyddom faint o wir sydd yn hyn, eithr fe all ei bod yr un mor wir bod llawer ohonom yn credu pethau nad ydym yn eu pregethu a'u dysgu, ac yn cadw oddi wrth ein gwrandawyr wybodaeth y mae ganddynt hawl arni. Y mae'r ddeubeth yn dreth ar gydwybod y pregethwr. Ac o sôn am beryglu y pregethwr, ei berygl mwyaf, fe ddichon, yw ffugio profiad nad yw'n berchen arno ac ymgolli mewn sentimentaliaeth ddisylfaen."

Ond er mor ochelgar a gofalus y bu'r pregethwyr, ymledu ymhlith y cyhoedd a wnaeth "Y Wybodaeth Newydd"—*ac amheuaeth yn ei sgîl.* Dyma enghraifft : Soniai "Sylwedydd" yn ei ysgrif ar "A Oes Anfarwoldeb i Ddyn?" yn *Y Goleuad*, Hydref 15, 1947, am wraig yn dweud "wrth Weinidog ei heglwys, 'Yr ydym yn marw fel gwartheg, a derfydd amdanom ni fel amdanynt hwythau.' Credai'r Gweinidog fod y wraig honno yn meddwl yr hyn a ddywedai." Mae'n amlwg fod y wraig honno—a oedd yn aelod eglwysig ac yn hyddysg yn ei Beibl—wedi sylwi ar y bedwaredd adnod ar bymtheg a'r ugeinfed adnod o'r drydedd bennod o Lyfr y Pregethwr. Mewn ysgrif arall yn *Y Goleuad* (Tachwedd 13, 1946), dywaid "Sylwedydd" hyn : "Un o osodiadau mwyaf pendant gweinidog ieuanc mewn anerchiad yng Nghyfarfod y Gweinidogion mewn Cymdeithasfa yn ddiweddar oedd hwn : 'Nid yw diwinyddiaeth draddodiadol y Cyfundeb yn apelio dim at y bobl dan ddeugain oed heddiw'."

Ac yn ddiwethaf oll, dyma'r Parch. Bleddyn J. Roberts—yn ei lyfr *Patrymau Llenyddol y Beibl*—yn dweud yn blaen mai "mythau a chwedlau (*myths*)" ydyw llawer o'r hanesion a geir yn y Beibl. Dywaid ef hefyd mai "canu serch" sydd yng "Nghaniad Solomon". Ac wedi sôn am y defnyddiau a oedd gan awduron yr Efengylau fel sail i'w hysgrifau ceir y cwestiwn hwn ganddo : "Mewn geiriau eraill, ym mha le ac ym mha fodd y gellir dod o hyd i ddefnyddiau Marc a *Q*?" A dyma'r ateb syfrdanol : "Yn sicr nid yn Epistolau

Paul, oherwydd *nid ymddengys y gwyddai Paul fawr ddim am ddysgeidiaeth yr Iesu.*" (Myfi sydd wedi italeiddio). Felly, "ymddengys" (chwedl Bleddyn Roberts), fod yn rhaid i'r "Iawn," "Etholedigaeth Gras," a "Chyfiawnhad Trwy Ffydd," etc., gael eu taflu dros y bwrdd i'r môr—"er mwyn ysgafnhau y llong"—yn ddiseremoni ! !

Dyna gipdrem ar nifer o'r pethau a ddug Brotestaniaeth Gristionogol i'r cyflwr y mae ynddi heddiw yng Nghymru. Ac, wedi'r cwbl, Protestaniaeth ydyw crefydd Cymru, er na fynn Golygydd *Y Llan* mo'r enw am bris yn y byd—Eglwys "Gatholig" ydyw'r Eglwys yng Nghymru.

(*I Barhau*).

Salmau'r Mynydd Ddoe ac Echdoe.

Gan Haydn Morgan.

Amlinelliad o Ddatblygiad ein Caniadaeth Gynulleidfaol.

Ganrif a hanner yn ôl, ail-adeiladwyd capel Gellionnen yn 1801. Yn y flwyddyn ganlynol, yno y ffurfiwyd Cymdeithas Undodaidd De Cymru, o dan arweiniad y Parch. Josiah Rees, y gweinidog ar y mynydd, y pryd hwnnw, cyn a wedi codi'r capel presennol. Ef a gyhoeddodd, yn 1796—7 gasgliad o ' hymnau a salmau ' addas ar gyfer y gwasanaethau yng Ngellionnen. Dethlir y can mlwyddiant a hanner hwn yng Ngellionnen, drwy gyhoeddi casgliad newydd, o emynau a thonau, a gyfansoddwyd gan aelodau, a chynaelodau o'r eglwys hon yn Nhrebanos. Fe ddaeth "Salmau'r Mynydd" allan o'r wasg yn 1951, ac yn y traethawd canlynol, ceisir dangos datblygiad y ganiadaeth gynulleidfaol fel cefndir i'r llyfr newydd.

I.

Cipdrem i'r Gorffennol.

Mor fynych y byddwn ni, fel Cymry, yn sôn am ein "hen" emynau a thonau—fel pe baent wedi bod erioed, yn rhan hanfodol o'n diwylliant, yn nodwedd elfennol ohono. Fe'n twyllir, yn fynych, i gredu, pan glywn Saeson yn ein seboni am ein tuedd Gymreig, o fynd i ganu, ein bod wedi'n dawnu'n neilltuol, yn y cyfeiriad hwn, a bod yr emyn dôn, yn fynegiant naturiol, greddfol braidd, o'r gynneddf hon, ynom, a dyna sut y byddem, wrth gwrs, yn ceisio deall unrhyw gyfeiriad, mewn unrhyw hen deith-lyfr, at ganu Cymreig o'r blaen.

Y mae'n sicr, ein bod mor gerddorol ag unrhyw genedl arall ; y mae gennym doreth o alawon gwerin hyfryd, nad oes mo'u gwell

i'w cael, a thraddodiad dihafal (un barddonol yn y gwraidd), o ganu gyda'r tannau. Ond cofier mai wedi newid a datblygu, y mae canu Cymru, fel canu pob gwlad arall, a chymryd arno'i liw, ei hun ; y mae acen y Gymraeg wedi trawsffurfio'i alawon a'i rithmau. Dim ond i ni wrando, ar ganu ddoe yng Nghymru'n unig, heb sôn am un echdoe, fe glywn wahaniaethau lawer. Peidiwn felly, a chredu, pan ddarllenwn ddisgrifiad Gerallt Gymro, o Gymry'r ddeuddegfed ganrif yn canu mewn cynghanedd, mai rhyw alawon â chordiau a ganent,—harmoni â thri neu bedwar part, fel y cawn heddiw yn yr ysgol Sul. Canu'r cyfnod ydoedd mwy na thebyg, caniadaeth yn null yr eglwys Gatholig, aml leisiol neu *polyphonic*,—cyfansoddiant yn cynnwys peroriaeth yn cael ei hateb,—neu'i hefelychu,—rhyw fath o "fugue" neu "round" efallai.

Pe nad aem ond can mlynedd yn ôl, at flwyddyn agoriad yr Arddangosfa Fawr, yn Hyde Park gan y frenhines Victoria (yn seiniau'r corawd Aleliwia o'r Meseia) fe gaem, mai dim ond newydd ddechrau oedd ein dull ni heddiw, sef y dull o ganu tonau mewn pedwar llais, a'r alaw gan y merched. Cyn yr amser hwn, yr amser pan godwyd cymaint o'n capeli sy'n sefyll heddiw (ar ôl ei hadnewyddu wedyn, ar ddiwedd y ganrif, fel Gellionnen yn 1872) y dull oedd canu mewn tri llais, a'r merched yn cymryd rhan y tenor, ac yn naturiol, tra bod eu lleisiau wythfed (octave) yn uwch, seiniau eu rhan, fel descant, nid anhyfryd i'r glust. Ni feddyliwyd ar unwaith, am roi'r alaw i'r gwragedd, oherwydd rhan i'r dynion oedd honno wedi bod erioed. Dim ond dynion a ganai yng nghôr yr eglwys a dyna'r lle daeth y ganiadaeth yn y dechrau (a dim ond newydd ddechrau o gwbl oedd y canu cynulleidfaol mewn harmoni).

Diddorol yw sylwi ar lyfr tonau J. Ambrose Lloyd, Lerpwl, yr arweinydd canu a'r cyfansoddwr enwog (canwn eu donau ' Wyddgrug,' ' Groeswen,' etc.). Daeth ei Gasgliad o Donau allan yn 1843 yn yr hen nodiant wrth gwrs (dyma'r llyfr tonau cyntaf y cofir bod adrodd am ei ddefnyddio yng Ngellionnen). Yno, yn y *drydedd* linell y mae'r alaw, otani y mae'r bass neu'r "is-alaw" ; wrth ei phen y mae'r alto, neu "uwch-alaw" (altus Lladin, uchel), ac wrth ben honno y mae'r tenor neu'r "meinlais" (tenuus, Lladin, teneu). Yn y rhagair adroddir y dylid mewn "corau rheolaidd", roi'r alaw ar *uch*-alaw, i'r merched ; felly, dim ond newydd dechrau oedd y dull newydd hwn. Sylwn hefyd, ba mor ddieithr i ni y mae llawer o'r tonau, a'u henwau (wrth gwrs, cyn amser Aberystwyth a Chwm Rhondda, etc.), e.e. Antaxerxes,—maent wedi mynd o gof erbyn hyn, ynghyd â'r hwyl oedd arnynt. Cof ail-law sydd gennym, am yr amser hwn, yn awr.

Ond gadewch i ni fynd yn ôl gan mlynedd arall, a dyma ni yng nghanol berw'r Diwygiad Methodistaidd, a ddechreuodd yng

Nghymru yn 1736—ac yn y flwyddyn yma, cyn newid yr hen galendr Rhufeinig, i'r un Gregoraidd (galwyd Medi 3, 1752 yn Medi 14, a hyd heddiw, gelwir Ionawr 13 yn "Hen Galan", yn ardal Yr Ymofynnydd, cylch Llandysul).

Newydd ddechrau y mae'r canu cynulleidfaol ; canu emyn ar ddiwedd oedfa, fel rheol, sawl gwaith drosodd ; canu ar gof ; nid oes lyfrau emynau i'r cynulleidfaoedd (pwy fedr ddarllen ?). Newydd ddechrau mae'r ffasiwn o emyn, newydd ddod mae'r dôn ; canu unllais ydyw, y "codwr canu" a gofia'r gân, nid oes offeryn cerdd ychwaith. Ni chred y diwygwyr yn y fath beth, digon yw'r llais dynol gydag ysbrydoliaeth ar gyfer y moliant llawnaf ; llama llawer yn y cyfarfodydd awyr agored a nifer fach o dai cyrddau sydd i'w cael ; nid yw Penrhiw ar ei draed eto. Wele John Wesley yn ysgrifennu yn ei ddydd-lyfr am Awst 27, 1763, ar ôl pregethu yn Abertawe.

"It is common in the congregations, attended by Mr. W. W. and one or two other clergymen, after preaching is over, for any one that has a mind, to give out the verse of a hymn. This they sing over and over with all their might, perhaps above thirty, yea forty times. Meanwhile, the bodies of two or three, sometimes ten or twelve, are violently agitated ; and they leap up and down, in all manner of postures, frequently, for hours together."

Ni chymeradwywyd yr "enthusiasm" neu'r "hwyl", newydd hon gan lawer o'r offeiriaid, ac onid hyn tybed, yw ystyr wreiddiol y term "hwyl Gymreig", yn hytrach na'r donyddiaeth a arferir gan rai o "hoelion wyth" Cymru,—y llafar ganu sy'n hynod o debyg i'r un a ddefnyddir o hyd, wrth ddarllen yr efengyl yn Lladin yn yr eglwys Gatholig.

A ydym yn adnabod rhai o'r tonau ? Alawon gwerin yw llawer ohonynt, wedi'u cyfaddasu at yr emyn ; ydym, maent yn y Perlau Moliant, sawl un, y Delyn Aur, etc. Nac anghofier mai mudiad oddi mewn i'r eglwys oedd Methodistiaeth ac mai offeiriadon oedd Howel Harris a William Williams, etc. Dim ond yn raddol y dilynwyd eu hesiampl, gan yr anghydffurfwyr ; dadleuwyd yn erbyn canu, gan yr ymneilltuwyr cyntaf. Ai'r saint oedd i ganu'n unig, ynteu'r gynulleidfa hefyd ; a oedd yn weddus i rai di-broffes ganu mawl ? Bu enwad y Bedyddwyr heb lyfr emynau hyd at y flwyddyn 1772.

Ond a gawn ni fynd gan mlynedd arall yn ôl ? Dyma ni yn awr yn amser Piwritaniaeth a Chromwell yn ben llywodraethwr. Hon yw adeg sefydlu'r achosion ymneilltuol fel gwrthdystiad yn erbyn dulliau seremoniol yr eglwys wladol. Sefydlwyd yr achos cyntaf yng Nghymru yn Llanvaches gan Walter Cradoc yn 1639. Ddeng mlynedd ar ôl hynny sefydlwyd achos cyntaf y Bedyddwyr yn Ilston ger Abertawe gan John Miles a dyma ni yn 1652 yn cael

cenhadon o'r olaf yn mynegi penderfyniad ynglŷn â'r canghennau newydd,

"Ar roi heibio canu salmau, yn y dull yr arferant, nes byddo hynny yn cael ystyriaeth bellach, etc."

Canu salmau oedd dull yr eglwys ar y pryd, nid canu emynau. Nid oedd y rheiny wedi dod eto, yn wir yr oedd yr ymneilltuwyr cyntaf mor wrthwynebus i ffurfiau'r hen ddefodaeth eglwysig fel na chaent ddim ond darllen, gweddïo a phregethu yng ngwasanaethau eu tai cwrdd. Ystyrient y salmau ar fydr, hyd yn oed, yn gyfansoddiadau dynol.

Wedi adferiad y brenin yn 1660 bu raid i'r diadelloedd yma wasgaru ac addoli mewn annedd-dai a pharhaodd hyn hyd oni phasiwyd deddf Goddefiad 1689. Felly, pan godwyd Gellionnen gyntaf, yn 1689, gallwn fod yn weddol sicr nad oedd canu o gwbl ar y mynydd y pryd hwnnw.

Ond tybed a gawn ni roi un cip-olwg ymhellach fyth i'r gorffennol a chroesi can mlynedd arall i'r cyfnod wedi uno Lloegr a Chymru yn 1536 a chyfraith Lloegr yn orfodol ar ein gwlad am y tro cyntaf. Yr adeg hon nid oedd unrhyw ganu ar salmau o gwbl a dim ond y côr-ganu Gregoraidd, Lladin araf rhwng seiniau cyfagos a oedd yn yr eglwysi cadeiriol a cholegol. Dyma ni felly yn y flwyddyn ddiwethaf o oddefiad swyddogol y Ffydd Gatholig ac ymhlith y pethau cyntaf ar gyfer olrhain hanes ein hemyn-donau.

Daeth y Brenin yn ben ar yr eglwys yn 1535, gwadwyd awdurdod y Pab a dechreuwyd malurio'r mynachlogydd a gwerthu eu tiroedd i stâd-feddiannwyr newydd. Dyma mi dybir, oedd cyfnod diddymu hen eglwys Llaneithrym (yn hollol ddamweiniol, efallai). Safai hon nepell o'r fan lle mae capel Gellionnen heddiw, ar y ffordd i'r Faerdre ac y mae'n bosibl mai delw neu ffigur o hon yw'r hen garreg sydd ym mur y capel presennol. Y mae rhai yn credu fod yr hen garreg yn dangos delw o offeiriad mewn defodwisg.

Cyhoeddwyd y Beibl Saesneg cyntaf yn 1537 a'r Llyfr Gweddi Cyffredin yn 1549, ond er gwahardd Lladin o'r gwasanaethau gan ganiatau rhoi'r cwpan ynghyd â'r bara i bawb ar gymundeb (yn lle bod yr offeiriad yn unig yn cymryd y gwin, fel y mae'r arfer o hyd yn yr Eglwys Gatholig), eto, Catholig oedd y ffydd, "yr hen ffydd", hyd yn oed yn 1552. Cofir i'r Llyfr Gweddi Cyffredin ymddangos y pryd hwnnw ac yr oedd hwnnw yn bendant brotestanaidd ei athrawiaeth a dangosai mai er cof am farwolaeth Crist yn unig y cyfrennid o'r elfennau.

Bu raid i'r diwygwyr ffoi pan ddaeth Mari am fyr amser i'r orsedd. Ymhlith y ffoaduriaid yr oedd Richard Davies, ficer Burnham a ddaeth wedyn yn Esgob Llanelwy ac yn enwog fel cyfieithydd y Llyfr Gweddi i'r Gymraeg. Ar ddiwedd teyrnasiad Mari daeth y Protestaniaid Seisnig yn ôl o Geneva ac ni ddaethant yn llaw-wag.

Cofient y salmau cân a'r tonau a genid ganddynt yn eglwys Saesneg y ddinas Galfinaidd honno ac yn wir yr oedd ganddynt lyfr—yr 'Anglo Genevan Psalter.' Dechreuodd yr eglwys yn yr Alban yn awr, ganu salmau ar fydr, a hyn a fu'r dull yno hyd at ganol y ganrif ddiwethaf.

Ond druan o Gymru, wrth genedlaetholi crefydd, ni fynnodd Lloegr ei hystyried hi hyd yn oed yn dalaith, ac ni chafodd hi'r hawl i grefydda yn ei hiaith ei hun. Mae'n wir i William Salesbury ysgrifennu Kynniver Llith a Ban yn Gymraeg (All the lessons and articles) ond ni chafwyd yr hawl i'w darllen yn llannau Cymru hyd at 1561, a wedyn rhaid oedd eu darllen yn Saesneg yn gyntaf. Yr amcan wrth gwrs oedd cael y Cymry i ddeall Saesneg. Yn 1563 gorchmynwyd i Esgobion Cymru ac Esgob Henffordd (oherwydd bod Henffordd a'r Amwythig eto yn siarad Cymraeg) i weld fod cyfieithiad Cymraeg o'r Beibl yn barod erbyn Mawrth y cyntaf, 1566. Eithr dim ond y cyfieithiad o'r Llyfr Gweddi a chyfieithiad o'r Testament Newydd gan William Salesbury (a Richard Davies) a ymddangosodd yn 1567. Bu raid aros hyd 1588 cyn cael ein Beibl Cymraeg ni gan y Dr. William Morgan, y gŵr a gyfieithodd yr Hen Destament a gwella'r cyfieithiad cyntaf o'r Testament Newydd. Ni synnwn o glywed fod John Penri yn ysgrifennu yn 1587, "unig foddion Cymru oedd gweddïau'r Saint, defodau ofergoelus a chaneuon Cymreig annuwiol." Barn ragfarnllyd, Brotestanaidd, efallai, oedd hon, oherwydd nid oedd pethau lawer gwell yn Lloegr ac yr oedd gan y Cymry eu carolau Nadolig, Pasg, Calan a Mai ynghyd â safon dra uchel mewn barddoniaeth.

Pan wnaethpwyd y cynigion cyntaf i osod y Salmau Cymraeg ar fydr ar ddechrau'r ganrif nesaf gwelwn fod y Cymry yn cael anhawster i ddeall y mesurau rhydd, newydd.

Gwilym Canoldref oedd y cyntaf i ymaflyd yn drwyadl yn y gwaith.

Troes Sion Tudur o'r Wig Fawr, Llanelwy ddeg o'r Salmau i fesur cywydd. Cawn lawysgrifau hefyd o'r mydryddiad cyntaf rhydd o'r salmau gan James Parry, Ewyas Lacy, y rhan Gymreig o Sir Henffordd. Ni chyhoeddwyd ei waith ond bu'n batrwn.

Glynodd traddodiad y canu caeth a phan ddaeth Salmau Cân Edmwnd Prys allan yn 1621 rhaid iddo esbonio paham y canodd y salmau i gyd ar fesur rhydd—"rhac wrth geisio cadw y mesurau golli deall yr ysbryd." Dyma'r llyfr emynau cyntaf gyda cherddoriaeth a gafodd ein cenedl ; ceir ynddo ddeg o alawon (a'r Hen Ganfed yn eu plith) ond gwelwn, yn y ddwy linell ganlynol, fod acen y gynghanedd yn parhau o hyd yn y "gerdd blethedig", a alwn yn "fesur salm".

"O agor Di y min mau
A'm genau mi a ganaf."

Eithr yn awr yr oedd y "grefydd newydd" yn dechrau cael gafael ar y Cymry. Cafwyd Beibl yr Esgob Parry yn 1620 (cyfieithiad diwygiedig) ac yn 1630 fe ddaeth "y Beibl Bach" (mewn llythrennau Rhufeinig a oedd yn fach ac anodd i'w darllen). Ar ei ddehrau yr oedd y Llyfr Gweddi, ac ar y diwedd, Salmau Mydryddol Edmwnd Prys—y cwbl oll am goron.

Wele'r Ficer Pritchard yn defnyddio'r mesurau rhydd newydd ar ddull penillion telyn, a oedd yn dod yn boblogaidd ; canodd yn ei gerddi syml,—

"Mae'r Beibl Bach yn awr yn gyson
Yn iaith dy fam i'w gael am goron
Gwerth dy grys, cyn bod heb hwnnw
Mae'n well na thre dy dad i'th gadw."

Ond nid oedd y canu cynulleidfaol wedi dod eto ; dim ond y côr yn unig a ganai yn yr eglwysi, a'r basŵn a'r basfeiol, a dysgu ar gof hefyd a wnaent. Rhaid aros eto am yr emyn a'r dôn.

Wele fydryddiad Edmwnd Prys o Salm C. (ar yr Hen Ganfed).

I'r Arglwydd cenwch lafar glod
A gwnewch ufudd-dod llawen fryd
Dowch o flaen Duw â pheraidd dôn,
Trigolion y ddaer i gyd.

Deuwch i'w byrth â diolch brau
Yn Ei gynteddau molwch Ef.
Bendithiwch enw Duw hy-nod
Rhowch iddo glod drwy lafar lef.

Gwybyddwch mai'r Arglwydd sydd Dduw
A'n gwnaeth ni'n fyw fel hyn i fod,
Nid ni'n hunain—Ei bobl ym ni
A defaid rhi Ei borfa a'i nod.

Cans da yw'r Arglwydd, awdur hedd
Da Ei drugaredd a di lyth
A'i wirionedd inni a roes
O oes i oes a bery byth.

(*I barhau*)

Neges y Llywydd i'r Mudiad Undodaidd 1952

Annwyl Gyd-Undodiaid,—

Gadewch i mi ddymuno yn dda i chwi yn ystod y flwyddyn newydd—bydded yn flwyddyn o heddwch a dyfalbarhad dros bopeth da. Dyma ddrws arall wedi agor a beth fydd ateb ' Crefydd y Drws Agored ' i'r cyfle hwn ? A dyma'r cwestiwn y dylem fedru ateb—beth yw'r achos fod yr eglwysi rhyddion yn gwacáu a sôn byth a beunydd am gynnydd yn aelodaeth yr Eglwys Wladol ac Eglwys Rhufain ?

Dros amser y mae'r mwyafrif yn esgeuluso'r eglwys ond y mae'r mwyafrif yma wedi cynhyddu'n fawr yn ystod y deng mlynedd

diwethaf. Clywais feio ar y 'Ddiwinyddiaeth Fodern' ond ni allaf gredu fod y cyhuddiad yma'n gywir oblegid nid yw 'Crefydd Rydd' wedi ei phregethu eto yn eglwysi ein gwlad. Nid yw 'Crefydd Rydd' wedi cael derbyniad swyddogol gan 'Eglwysi Rhyddion' ein gwlad. Os mai diwinyddiaeth sydd ar fai yna diwinyddiaeth iawnffyddol sydd i'w feio.

Y mae'n wir fod nifer mawr o ddynion a benywod diwylliedig a da eu moes, gwŷr a gwragedd sydd yn hiraethu am gartref crefyddol, am frawdoliaeth iachus a rhydd i gyd addoli. Ond y mae'n wir hefyd eu bod yn methu ymgartrefu yn ein heglwysi oherwydd nad yw'r athrawiaethau a bregethir yn cyd-redeg a'u meddwl blaenfynedol. Yn wyneb sefyllfa o'r fath, y mae'n dorcalonnus meddwl fod llawer o'n gweinidogion yn feddyliol-ddioglyd ; ni thrafferthant ddatrys y problemau na phlymio i'r dwfn. Gofyn 1952 yn bennaf dim am onestrwydd meddyliol.

Y mae eraill sy'n rhy ofnus i chwilio ; ofnant ganfod y golau, ofnant y gwirionedd, ofnant ddryllio'r hen greiriau, ofnant syrthio i bwll rhwng dau fyd a dau ddewis. Y mae'r bobl yma yn gadael i'w teimladau fod yn rhyw fath o 'smoke screen' rhyngddynt a'r ffaith hagr o'u ddiffyg meddwl yn onest, o'u diffyg agor y drws, o'u diffyg agor y ffenestri i gyfeiriad y goleuni.

Y mae'n dorcalonnus meddwl fod arweinwyr "Yr Eglwysi Rhyddion" yn bodloni ar gawl ail-dwym o ddiwinyddiaeth a luniwyd yn yr oesoedd tywyll. 'Blind leaders of the blind, destined to the ditch.' Nid wrth edrych yn ôl i'r hen amseroedd am neges y mae gwasanaethu ein hoes. Y mae gan yr oes hon ei anghenion arbennig a rhaid eu deall.

Y mae gormod o bregethu heddiw i'r oes sydd yn myned heibio a rhy fach o bregethu gyda llygad ar yr oes sy'n gwawrio. Nid yw'r do sy'n codi yn deall y brawddegau na'r iaith ac oni ofalwn gydgerdded â'r oes sy'n mynd ymlaen, fe gollwn y dyfodol yn llwyr.

Nid 'replica' o unrhyw oes arall ydyw ein hoes ni. Y mae ganddi ei galwadau angherddol ei hun, galwadau sy'n gofyn am lunio ac adeiladu ar raddfa ehangach na welodd y byd hyd yma. Os pregethwn neges ail-raddol i'r oes hon, trengi fydd ein hanes.

Beth felly yw neges Undodiaeth, neu'r Grefydd Rydd i'r oes newydd ? Nid yw'r neges efengylaidd gyda'i golwg ar iachawdwriaeth yr unigolyn yn ddigon. Dyma fel y gwelwn ni hi—nid oes iachawdwriaeth i'r unigolyn sydd yn anfodlon colli ei 'hunan bach' a'i 'hunan les' er gwasanaethu ei gyd-ddynion. Dylai ein heglwysi ni baratoi ein aelodau yn foesol ac ysbrydol i aberthu er mwyn cael y bywyd llawn a gorau mewn cymdeithas. Bydd rhaid cerdded i'r cyfeiriad yna. Gadewch i'r efengylydd sydd yn credu fod yr hen neges yn ddigon da i ail ystyried, ail feddwl a phendrymu dros y

ffaith fod y dorf wedi cefnu ar yr eglwysi gan deimlo fod y neges yn annigonol a'r iaith yn ddieithr.

Achos arall o ddryswch y bobl yw'r ffaith fod llawer yn y niwl mewn cysylltiad a bodolaeth Duw ; nid ydynt yn gwybod bcth i feddwl amdano ac ni theimlant yr atyniad i'w addoli. Teimlant yr un sut am *weddi*—nid yw ' Rhagluniaeth fawr y nef ' a'r ' Dwyfol Ymweliad ' yn ffaith yn eu profiad o fywyd ac nid digon rhoi iddynt yr unfed salm ar ddeg wedi'r pedwar ugain fel balm. Ni theimlant mai gwir yw fod ffydd yn Nuw, Bywyd Glân y Saint a Chymeriad Glân yn mynd i'w hamddiffyn rhag y Fom Atomig. Os gwir, a ellir parchu Duw sy'n gofalu am yr etholedig a gadael y cymydog na afaelodd yn y ffydd i drengi ?

Fe fydd yn rhaid meithrin gofal wrth ddewis darlleniadau o'r Beibl yn ein gwasanaethau rhag inni gamliwio'r Creawdwr. Bydded ein gweinidogion ofalus rhag y ffug-egluro ar ddigwyddiadau bywyd, er enghraifft, dweud fod achubiaeth Dunkirk yn ganlyniad i ymyrraeth Duw. Os yw Duw yn ymyryd felly, paham na roesai derfyn ar ryfel yn gyfan-gwbl ?

Rhaid pregethu Duw yn ôl ein profiad ohono a throsglwyddo'r profiad hwnnw i gyd-ddyn. Ni all dyn siarad am ddim ond a ŵyr amdano—ofer yw pob ffug o bulpud.

Fy apêl i'r enwad bach yn 1952 yw apêl am ail-feddwl ac ail-ystyried y cyfleusterau sydd wrth law gan gofio bod i ni ryddid i feddwl yn onest gan agor y drws lled y pen.

Ennyn serch yng ngwreiddiau 'nghalon
Fel y carwyf rhain i gyd,
Fel y gwnelwyf dy gynghorion
O flaen dim a gâr y byd.
Rho dy gymorth fel bo Dy 'wyllys
Ym mhob peth a wnelwyf fi ;
Rho dy nerth fel gallwy'n ddilys
Rodio'th lwybrau nefol Di.

Gobeithio y bydd profiad Iolo yn brofiad i ni gyd am 1952.

D. T. Williams.

SALMAU'R MYNYDD—LLYFR EMYNAU NEWYDD.

Y mae'r llyfr emynau newydd o waith gweinidogion ac aelodau Gellionnen a'r Graig wedi cyrraedd. Y mae'n llyfryn hardd cant o dudalennau yn y nodiant Sol-ffa. Fe'i ceir mewn dau ddiwyg, clawr caled—coron, a chlawr ystwyth—pedwar swllt. Dylai pob Undodwr gefnogi'r antur yma a gellir cael copïau oddi wrth Mr. Haydn Morgan, 198, Swansea Road, Trebanos, Pontardawe. Gobeithiwn gael adolygiad ar gyfer rhifyn Chwefror.

Priodas.

TACHWEDD 24ain, 1951, unwyd mewn glân briodas, Mr. JOHN THOMAS, Nantycwnstabl, Ffostrasol a Miss MARY DAVIES, Bwlchybryn, Talgarreg. Gwasanaethwyd gan y Parch. J. Marles Thomas yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. W. Jenkins, Rheithor Talgarreg.

Marwgofion.

YN niwedd mis Tachwedd 1951 bu farw DANIEL DAVIES, a adnabyddid yn Nyffryn Aeron fel Dan Davies, Gwrthwynt-isaf. Collodd ei briod tua phum mlynedd yn ôl a bu yn cartrefu am gyfnodau gyda'i ddwy ferch, un yn Sir Fôn a'r llall yn yr Alban. Gyda'r olaf yr oedd pan fu farw. Trigai ei rieni, Evan a Jane Davies yn Pantffynnon, gerllaw Cwrtnewydd pan oedd ef yn ifanc a'r pryd hynny yr oedd ei fryd ar fod yn siopwr. Fe aeth i ddysgu'r alwedigaeth i Llysfaen House, Llanybydder. Bachgen uchelgeisiol oedd, a chyn hir ar ôl gorffen ei brentisiaeth fe ymadawodd ac o dipyn i beth cafodd ei gyflogi gan Gibson a Paterson, Lliainwerthwyr. Darganfu'r rheiny gymwysterau arbennig ynddo ar fyr ac fe'i dewiswyd i fod yn brynnwr nwyddau iddynt ac fe'i gwasanaethodd am flynyddoedd lawer. Yr oedd yn 77 adeg ei farw a dygwyd ei weddillion o'r Alban i gartref Thomas Jonathan Davies, Brynog, Felinfach, nai iddo. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. Lewis Williams, Rhydygwin ac yn yr eglwys ac ar lan y bedd yn Nhrefilan gan y Parchn. D. J. Richards y Ficer a J. Ernest Jones, Ficer Ystrad. Gadawodd ddwy ferch a'u teuluoedd, tri brawd a'u teuluoedd, un chwaer a'i phriod ynghyd ag amryw neiaint mewn galar.

RHAGFYR 7, 1951, DANIEL HAMILTON JENKINS, priod Mrs. Elizabeth Jenkins, Waun Villa, Llanwnen, Ceredigion, yn 34 mlwydd oed. Ef oedd unig fab Mr. a Mrs. Griffith Jenkins, Blaenwaunganol, Llanwnen. Tra wrth ei waith yn Blaenwaunganol cyfarfu a damwain a fu yn achos marwolaeth ddisyfyd iddo. Yr oedd yn ymroddedig i'w waith fel amaethwr, ac wedi cymwyso ei hun i wneud pob gorchwyl a berthynai i'w alwedigaeth. Er cymaint y cynnydd sydd wedi cael ei wneud mewn amaethyddiaeth, nid oedd dim na wyddai amdano, a gellid ei gyfrif yn amaethwr deallus a medrus. Nid yw'n rhyfedd ei fod yn ddeallus. Y mae ei dad yn fab i'r diweddar Daniel Jenkins, Pentrefelin, Talsarn, Ceredigion a oedd yn ysgolfeistr ac yn llenor da. Mae ei fam yn hanu o deulu Blaenwaunganol, teulu a oedd yn uwchraddol eu safle mewn cymdeithas. Pe byddai i'w fywyd gael ei estyn yn hwy, diau y byddai iddo amlygrwydd ym myd amaethyddiaeth. Yr oedd yn nodedig am ei wyleidd-dra a'i hynawsedd, a gwnaeth hyn ef ynghyd a llawer rhinwedd arall ynddo, yn un hoffus a pharchus. Mae ei ymadawiad

cynnar wedi creu gwacter mawr yn ei gymdogaeth, a bydd hiraeth dwys ar ei ôl. Claddwyd ym mynwent Capel y Groes. Traddodwyd y bregeth yn y Capel gan y Parch. Lewis Williams, Rhydygwin a chymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan y Parchn. S. E. Bowen, Alltyblaca ; D. Jones, Ficer Silian ; J. Islan Jones, M.A., Llanbedr ; J. Marles Thomas, M.A., Llandysul a T. O. Williams, M.A., Brondeifi. Gwasanaethwyd wrth yr Organ gan Mrs. Jones, Penllain, Llanwnen a Mrs. Davies, Caerwilym, Felinfach. Gadawodd briod a dwy ferch ; tad a mam a thair chwaer ; un brawd-yng-nghyfraith, ac ewythrod a neiaint, ac amryw o bethnasau eraill mewn galar mawr.

Newyddion yr Enwad.

BWLCHYFADFA.—Ar y nawfed o Dachwedd cynhaliwyd ein Cyfarfodydd Diolchgarwch a'r Parch. J. Marles Thomas yn gwasanaethu. Dyma'r cyntaf heb gwmni ein parchus weinidog. Miss E. Thomas, Green Grove a Mrs. Evans, Pantglas oedd wrth yr organ, ac fe gafwyd cyrddau hwylus. Ar y bumed ar hugain o Dachwedd cafwyd cyfarfod y plant llwyddiannus iawn dan arweiniad Miss E. Thomas, Green Grove. Y mae ein dyled yn fawr iddi am ddysgu'r plant mor dda fel y darfu iddi gael galwad i gadw'r gwasanaeth yn y Bwlch a'r Llwyn ar Sul, Rhagfyr yr ail. Hwyl fawr iddi fynd rhag ei blaen yn ei gwaith da.

ANRHEGU.—Mae cynulleidfa Capel Ciliau Aeron wedi anrhegu ei gweinidog a'i briod, y Parch. a Mrs. Lewis Williams â swm sylweddol o arian ar achlysur eu priodas euraid. Cyflwynwyd yr anrheg gan Miss Davies, N.D.D., Green Grove.

CAIS AM OL-RIFYNNAU.—Carai llyfrgellydd Coleg y Brifysgol, Caerdydd gael yr ôl-rifynnau canlynol o'r YMOFYNNYDD 1949—Medi, Hydref ; 1950—Hydref, Tachwedd, Rhagfyr ; 1951—Ebrill, Mehefin, Tachwedd, Rhagfyr. Danfoner y rhifynnau i'r Golygydd os gwelwch yn dda.

RHAGLEN RADIO O SAFON UCHEL.—Ar nos Fawrth, Rhag. 18fed, buom yn gwrando ar raglen radio arbennig o dda gan y Parch. Noel James, gŵr sy'n dod i amlygrwydd fel un o'r ychydig Gymry sy'n arbenigo mewn gwella doluriau'r meddwl. Yn ei raglen bu'n datrys problem y ' Kleptomaniac, neu'r gŵr sy'n teimlo anghenraid arno i ddwyn eiddo arall. Dyma un o'r rhaglenni mwyaf meistrolgar a glywsom ers tro. Carem yn fawr gael caniatâd Mr. James i'w chyhoeddi maes o law. Y mae Mr. James fel y gwyddys yn gofalu am ein achosion yng Nghapel y Groes a Chribyn.

LLYFRGELLOEDD COLEGAU'R BRIFYSGOL.—Yn ystod Rhagfyr derbyniodd y Golygydd archeb tair o'r llyfrgelloedd yma am YR YMOFYNNYDD. Byddant yn dderbynwyr cyson o hyn allan a llawenhawn o wybod y bydd ein cylchgrawn at wasanaeth myfyrwyr ein colegau. A wyddoch am ryw lyfrgell leol nad yw yn ei dderbyn ? Ewch, cenhadwch !

LLUNDAIN.—Carwn estyn ein dymuniadau gorau i Mr. a Mrs. John Morgan (gynt Miss Ray Davies) ar eu priodas. Y mae Mrs. Morgan wedi bod yn un o'n aelodau mwyaf ffyddlon ers blynyddoedd. Edrychwn ymlaen at gwmni'r ddau gyda holl waith yr eglwys yn y blynyddoedd pwysig sydd o'n blaen. Dedwydd fyddo'i byd.—Blin iawn oedd gennym glywed fod Mrs. J. O. Lewis a Mr. Denzil Davies yn glâf ac mewn ysbytïau, ond ymfalchïwn o glywed fod y ddau lawer iawn yn well erbyn hyn ac yn medru treulio'u Nadolig yn eu cartrefi. Hyderwn y cânt adferiad llwyr yn fuan.—Cyd-ymdeimlwn a Mr. Gwilym Evans ar golli ohono ei dad. Brawd oedd y diweddar Mr. Evans i Mrs. Davies (mam Mr. Gwilym a Miss Megan Davies), ac estynnwn iddi hithau ein cydymdeimlad. Blin iawn, iawn oedd gennym glywed hefyd am farwolaeth Miss Evans, Ffynnon Fair. Galarwn ar ei hôl a chydymdeimlwn â'i nith, Mrs. Joyce ag eraill o'i pherthnasau.—Diolchwn i'r Parchn. E. D. Davies a T. L. Jones ag i Mr. L. B. Hopkin (Coleg Caerfyrddin), a Mr. D. T. Williams (Llywydd y Gymdeithas Gymraeg) am gymryd ein gwasanaethau yn ddiweddar. Pleser mawr oedd eu gweld a'u clywed i gyd. Gobeithio y gwnaiff pob Llywydd o'r Gymdeithas yn y dyfodol bwynt o ymweled â ni yn ystod blwyddyn ei swydd. Edrychwn ymlaen gan obeithio clywed am dathlu neilltuol gan y Gymdeithas yn 1952, ar ei chanfed pen blwydd a hanner (150). Ganwyd hi yn yr hen gapel ar y mynydd, "rhywle yn ardal Castell Nedd" yn 1802. Llawenychwn ei bod yn fyw (ac yn pryfio, gobeithio) o hyd. A oes yma heddiw rhyw Ddafis Castell Hywel, Tomos Glyn Cothi, Josiah Rees a Iolo Morgannwg yn ein mudiad fel y dydd hwnnw? —Cawsom ddwy *Whist Drive* lwyddiannus yn ddiweddar. Diolch i bawb fu'n gweithio i'w gwneud yn llwyddiant.—Y mae pwyllgor o'r eglwys wedi cwrdd a phwyllgor Eglwys Highgate, ac yr ydym erbyn hyn wedi penderfynu geisio cael gweinidog Cymraeg i edrych dros y ddwy eglwys, os medrir cael rhywun a foddlona'r ddwy eglwys i gymryd at y gwaith. Dyma ein cyfle gorau ers dechreuad ein cynulleidfa yn Llundain. A oes rhywun yn fodlon mentro pontio'r afon rhwng y Saeson bore Sul a'r Cymry, nos Sul? Gweddïwn i fod yna rhywun.—Gan y bydd ein Cadeirydd yng Nghaerdydd y rhan fwyaf o'i amser yn ystod y flwyddyn bwysig yma sydd o'n blaen, yr ydym, wedi ethol Mr. John Lloyd Jones yn Is-Gadeirydd. Y mae Mr. Lloyd Jones wedi bod yn aelod ffyddlon o'r dechreuad a llawenychwn ei fod wedi cymryd at y gwaith ym mlwyddyn bwysicaf ein hanes o bosibl. Bendith Duw fyddo arno ac ar ei waith.

CYFRANIADAU AT GRONFA'R 'YMOFYNNYDD.'—Y Capel Bach, Aberystwyth—Dwy Gini; Urdd y Benywod, Trebanos—Punt; James Evans, Rhydymaengwyn—Chweugain; D. Jacob Davies—Dwy Gini.

Y CHWI—FAINT?

MEWN LLAW.—Mae'r Golygydd yn gofidio na all gyhoeddi eiddo N. a N., A.J.R., T.E.N., etc. yn y rhifyn hwn oherwydd diffyg gofod. Fe'u ceir yn ddi-ffael yn rhifyn Chwefror.

J. D. Lewis a'i Feibion Cyf., Argraffwyr, &c., Gwasg Gomer, Llandysul.